

Astudiaeth Achos

Cefnogi Anghenion Seicogymdeithasol Cleifion Gofal Lliniarol A Chleifion Canser Gyda Theleiechyd

Thema Ymchwil: Iechyd

YMCHWILWYR

Dr Rachel Rahman
Dr Joseph Keenan
Dr Martine Robson

TROSOLWG

Llywiodd y Ganolfan am Ragoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig (GRYIG) ym Mhrifysgol Aberystwyth ddatblygiad gwasanaeth teleiechyd newydd yn 2014 sy'n rhoi cymorth i gleifion gofal lliniarol yng nghanolbarth-gorllewin Cymru. Mae hyn yn arwyddocaol i'r rhanbarth, oherwydd mae'n cefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a nodwyd yn Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru (Longley et al., 2014). Caiff yr effaith ei hamlygu ar ffurf newidiadau i strategaeth gofal lliniarol y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod gwasanaethau teleiechyd yn cael eu cyflwyno'n barhaus; hanesion personol cleifion sy'n dangos hwb i'w lles a'u gweithredu beunyddiol; a thystiolaeth o wella effeithlonrwydd a mynediad at wasanaethau i staff a chleifion.



YR YMCHWIL

Mae'r Ganolfan Canolfan Rhagoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig (GRYIG), o dan arweiniad Dr Rachel Rahman, wedi archwilio'r defnydd o deffeddygaeth er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion cefn gwlad fanteisio ar wasanaethau iechyd. Drwy gydweithio â Thîm Gofal Lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sefydlwyd gwasanaeth cymorth seicogymdeithasol teleiechyd ar gyfer cleifion gofal lliniarol mewn ardaloedd gwledig. Cyn pandemig COVID-19, nid oedd teleiechyd yn rhan o ddarpariaeth arferol y gwasanaeth. Dyma un o'r gwasanaethau cyntaf ym Mhrydain i ddarparu cymorth yn y cartref i gleifion gofal lliniarol yn y modd hwn.

“Yn ôl adborth gan gleifion, mae peidio â gorfod gwneud y daith wedi eu grymuso, am fod modd iddyn nhw gael gafael ar y cymorth a'r gwasanaeth o gysur eu cartref.”

GUDRUN JONES, THERAPYDD CELF, BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA

YR EFFAITH

■ LLYWIO POLISI, STRATEGAETH A RHOI TELEIECHYD AR WAITH I GYNNIG GOFAL LLINIAROL

Diolch i ddylanwad ymchwil Prifysgol Aberystwyth, cafodd teleiechyd ei gynnwys yng ngwasanaeth gofal lliniarol y Bwrdd Iechyd. Cafodd cynnig, a gyflwynwyd gan reolwr teleiechyd y bwrdd iechyd, ei dderbyn gan grŵp strategaeth gofal lliniarol Hywel Dda, a gytunodd i gynnwys teleiechyd fel rhan o strategaeth gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

■ GWELLA MYNEDIAD CLEIFION AT GYMORTH SEICOGYMDEITHASOL A CHEFNOGI MYNEDIAD AT OFAL YN NES AT Y CARTREF

Roedd y gwasanaeth teleiechyd yn darparu cymorth seicogymdeithasol hanfodol i gleifion gofal lliniarol a chanser. Maes o law, roedd y gwasanaeth yn cynnig mynediad cyfleus i staff amlddisgyblaethol, gan gynnwys gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr, nyrsio, a therapi galwedigaethol. Dywedodd y cleifion fod y gwasanaeth wedi ei gwneud hi'n haws iddyn nhw reoli eu bywydau bob dydd, addasu i ddiagnosis anghueol ac roedd hefyd yn golygu nad oedden nhw'n methu apwyntiadau.

■ MANTEISOL I ARFERION GWEITHIO STAFF GOFAL IECHYD

Roedd staff y bwrdd iechyd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth teleiechyd yn arbed amser teithio, gan gynyddu effeithlonrwydd eu gwaith clinigol. Roedd y gwasanaeth hefyd yn ei gwneud hi'n haws i staff gael gafael ar gleifion, a fyddai fel arall yn anodd cael gafael arny'n nhw oherwydd rhwystrau daearyddol neu seicolegol.

“Arbedwyd amser teithio i staff y bwrdd iechyd a ddefnyddiodd y gwasanaeth teleiechyd, â hynny yn ei dro yn cynyddu effeithlonrwydd eu gwaith clinigol. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi gwella mynediad staff at gleifion, a fyddai fel arall yn anodd eu cyrraedd naill ai oherwydd rhwystrau daearyddol neu seicolegol.”

GUDRUN JONES, THERAPYDD CELF, BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA